



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	30 Gorffennaf 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

- Rheoliadau Datblygu Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cyllido, Rheoli a Monitro) (Darpariaethau Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Mesurau'r Farchnad (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Fframwaith Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio'r Rheoliadau uchod oherwydd bod ynddynt nifer bach o fân gamgymeriadau y mae angen eu cywiro er mwyn dileu anghysonderau ac amwysedd, gan sicrhau y byddant yn gallu gweithio fel y bwriedir os ymadewir â'r UE heb gytundeb. Bydd y cywiriadau hyn yn egluro'r mesurau a nodir ynddynt ac yn sicrhau cysondeb â diwygiadau a wnaed gan Offerynnau Statudol eraill sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE. Byddant hefyd yn dileu amwysedd pan gyfeirir at reoliadau a chynlluniau eraill yr UE a ddargedwir ac sy'n gysylltiedig â'r PAC. Mae'r diwygiadau hyn yn rhai cwbl dechnegol eu natur ac nid ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau polisi.

Mae'r cywiriadau yn mynd i'r afael hefyd â diffyg technegol yn y trefniadau trosiannol, sydd yn y Rheoliadau hyn, a fydd yn gymwys pan fydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Cafodd y cyfnod y byddai'r trefniadau hynny mewn grym ei ddiffinio drwy bennu dyddiad

terfynu, ar y sail y byddai'r DU yn ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2019. Cywirwyd hynny fel y bo'r trefniadau hyn yn gymwys am gyfnod penodol o amser a gyfrifir o'r 'diwrnod ymadael' â'r UE. Mae hyn yn golygu y bydd modd gwireddu'r trefniadau trosiannol y cytunwyd arnynt beth bynnag y bydd union ddyddiad ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2019 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/b9A1XpJf>

Mae'r diwygiadau i bob rheoliad yn cael eu nodi isod:

- *Rheoliadau Datblygu Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.* Mae diwygiadau i'r rheoliadau hyn yn cywiro anghysonderau drafftio mewn Offerynnau Statudol blaenorol ar Ymadael â'r UE ac yn sicrhau y bydd modd eu gweithredu. Mae hefyd yn trosglwyddo swyddogaethau gweinyddol i Weinidogion Cymru.
- *Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cyllido, Rheoli a Monitro) (Darpariaethau Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019.* Mae'r offeryn hwn yn gwneud nifer o fân gywiriadau technegol i'r rheoliadau hyn er mwyn dileu amwysedd ac anghysonderau ac er mwyn sicrhau y bydd modd eu gweithredu
- *Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Mesurau'r Farchnad (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019.* Mae diwygiadau i'r rheoliadau hyn yn cywiro mân gamgymeriad sy'n cyfeirio at droednodyn yn Rheoliad yr UE a ddargadwyd ac a gyflwynwyd gan Offeryn Statudol blaenorol ar Ymadael â'r UE, er mwyn sicrhau y bydd modd eu gweithredu.
- *Rheoliadau'r Fframwaith Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.* Mae diwygiadau i'r rheoliadau hyn yn gwneud cywiriadau er mwyn sicrhau y bydd y trefniadau trosiannol y cytunwyd arnynt yn gweithio yn ôl y bwriad pa ddyddiad bynnag yr ymadewir â'r UE. Mae hefyd yn gwneud dau fân gywiriad arall: cywiro cyfeiriad at Atodiad a rhoi "relevant" yn lle "appropriate" mewn un man.
- *Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.* Mae diwygiadau i'r rheoliadau hyn yn gwneud cywiriadau er mwyn sicrhau y bydd y trefniadau trosiannol y cytunwyd arnynt yn gweithio yn ôl y bwriad pa ddyddiad bynnag yr ymadewir â'r UE.
- *Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.* Mae diwygiadau i'r rheoliad hwn yn gwneud cywiriadau er mwyn sicrhau y bydd y trefniadau trosiannol y cytunwyd arnynt yn gweithio yn ôl y bwriad pa ddyddiad bynnag yr ymadewir â'r UE.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Mae Rheoliadau 2019 yn trosglwyddo swyddogaethau gweinyddol fel eu bod yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn ddilyffethair. Nid ydynt yn trosglwyddo swyddogaethau deddfwriaethol.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nid yw Rheoliadau 2019 yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Fel y nodir uchod, mae Rheoliadau 2019 yn cywiro nifer bach o fân gamgymeriadau y mae angen eu cywiro er mwyn dileu anghysonderau ac amwysedd, gan sicrhau y byddant yn gallu gweithredu yn ôl y bwriad os ymadewir â'r UE heb gytundeb.